AELODAETH
MEMBERSHIP
Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol
National Quality Service Standards

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

# Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru

ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru

## Argraffiad 2022

# Diolchiadau

Mae Cymorth i Ferched Cymru am ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r rhifyn diweddaraf hwn o Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol.

Cafodd y Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol eu datblygu mewn ymgynghoriad â gwasanaethau arbenigol a chyda rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru. Mae diolch arbennig yn ddyledus i'r holl weithwyr proffesiynol hynod ymroddedig hynny sy'n gweithio o fewn aelod-wasanaethau arbenigol Cymorth i Ferched Cymru sydd, dros flynyddoedd lawer, wedi cyfrannu eu harbenigedd helaeth i lywio'r safonau ymarfer craidd hyn.

Diolch i Jess Taylor am ei chymorth wrth ddistyllu drafftiau cynharach o'r safonau hyn, ac i Chrissie Nicholls am gysoni'r safonau ag egwyddorion Newid Sy'n Para a Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor Llywodraeth Cymru.

Diolch hefyd i gydweithwyr mewn Ffederasiynau Cymorth i Ferched eraill ledled y DU – yn arbennig Janet Mc Dermott, Nicki Norman ac Eve Blair – am weithio gyda ni i lywio'r gwaith o ddatblygu dull cyson yn y DU o gefnogi gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) arbenigol i ddangos tystiolaeth o'u hansawdd.

Diolch i Lywodraeth Cymru am eu cymorth ariannol i ddatblygu, treilau a rheoli Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol ac i Race Council Cymru am eu hadborth manwl ar yr argraffiad hwn.

Yn olaf, mae diolch arbennig yn ddyledus i'r miloedd lawer o oroeswyr sydd wedi defnyddio gwasanaethau arbenigol lleol yng Nghymru ac sydd, er gwaethaf profiadau o gam-drin sy'n aml yn frawychus, wedi darparu adborth helaeth ar y safonau hyn ac ar sut y mae modd cefnogi gwasanaethau arbenigol i wella'n barhaus, er mwyn diwallu eu hanghenion yn well. Mae eu cryfder, eu mewnwelediad a'u gwydnwch yn parhau i ysbrydoli ein gwaith i roi terfyn ar bob math o drais yn erbyn menywod, ac rydym ni'n cyflwyno'r safonau hyn iddynt.

Dyfyniadau gan oroeswyr ers dysgu am Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol:

"Doeddwn i ddim wir yn deall bod y safonau hyn yna i amddiffyn pobl fel fi, nawr mod i'n gwybod hyn rwy'n teimlo'n dawelach."

"Dydyn ni ddim yn disgwyl perffeithrwydd, ond pan gawn ni'n siomi yn y sefyllfaoedd gwaethaf yn ein bywyd, byddai'n braf gwybod am y safonau hyn a chael gafael ar wasanaethau sydd â nhw yn hytrach na'u ceisio nhw gan wasanaethau eraill."

"Mae'n dda iawn gwybod a deall bod proses yn ei lle a'i bod wedi'i chymryd o ddifrf."

"Ers cael dealltwriaeth sylfaenol bod safonau yn eu lle ar gyfer gwasanaethau, mae wedi gwneud imi deimlo'n hyderus i droi at wasanaethau."

"Pam nad yw hyn ar wefannu'r holl wasanaethau?"

# Cyflwyniad gan Brif Weithredwr Cymorth i Ferched Cymru



Mae'n bleser gennyf glyflwyno Rhifyn 2022 o Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cymorth i Ferched Cymru. Cafodd Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru eu datblygu mewn ymateb i angen ein haelod-wasanaethau cam-drin domestig arbenigol ledled Cymru i ddangos eu hansawdd a'u heffaith. Mae'r Safonau yn dyst i sut mae'r gwasanaethau arbenigol pwrpasol hyn yn galluogi newid parhaol ym mywydau goroeswyr cam-drin domestig ac maen nhw'n adlewyrchu pwysigrwydd hanfodol sicrhau y gall pob goroeswr gael mynediad at y cymorth arbenigol 'iawn' ar eu cyfer, a hynny ar yr amser 'iawn'. Ar gyfer cyllidwyr a chomisiynwyr gwasanaethau arbenigol mae'r Safonau'n gweithredu fel mecanwaith cadarn ac annibynnol i sicrhau ansawdd. Maen nhw'n cynnwys meincnodau clir ar gyfer sut olwg gall - ac y dylai - fod ar wasanaethau arbenigol holistaidd, ansawdd uchel, sydd wedi'u harwain gan anghenion, sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n ymateb i rywedd.

Rwyf yn arbennig o falch bod Rhifyn 2022 o'r Safonau bellach yn ymgorffori'r meini prawf ar gyfer Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor Llywodraeth Cymru (IAQF Cymru). Drwy ddod yn Gorff Achredu Cymeradwy ar gyfer IAQF Cymru, rydym ni wedi sicrhau bod ymgyrch Llywodraeth Cymru i sicrhau gwybodaeth a chyngor o answadd uchel ar draws holl feysydd gwaith cymorth yn rhan annatod o'r broses o sicrhau ansawdd gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol Cymru.

Mae gan aelod-wasanaethau Cymorth i Ferched Cymru gyfoeth o wybodaeth ac arbenigedd mewn darparu gwasanaethau arbenigol, sydd wedi'u llywio gan ddealltwriaeth o drais yn erbyn menywod ar sail rhywedd. Mae'r Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol yn seiliedig ar brofiad, gwybodaeth a gwerthoedd cyfunol gwasanaethau. Maen nhw'n gosod anghenion goroeswyr wrth galon darpariaeth a gweithio mewn partneriaeth, tra'n galluogi

gwasanaethau i ddangos tystiolaeth gadarn o'u harbenigedd, eu heffeithiolrwydd, eu heffaith a'u gwerth am arian. Mae hyn i gyd o fewn amgylchedd cyllido mwy cystadleuol wedi'i nodweddu gan glytwaith o gytundebau tymor byr.

Nid yw'r angen am wasanaethau arbenigol hygyrch a holistaidd sy'n annibynnol ar wasanaethau'r wladwriaeth ac sy'n canolbwyntio ar atal, amddiffyn a chefnogi erioed wedi bod mor hanfodol. Mae gwasanaethau o'r fath hefyd yn cael eu nodi'n gyson gan fenywod a phlant fel y rheini sy'n cefnogi orau eu taith o argyfwng i adferiad. Mae ymchwil yn dweud wrthym fod goroeswyr yn ymgysylltu ac yn elwa fwyaf o wasanaethau sy'n cael eu harwain gan anghenion, sy'n ymateb i rywedd, sydd wedi'u llywio gan drawma ac sy'n gymorth i oroeswyr ailadeiladu eu bywyd ar ôl cael eu cam-drin.

Mae pwysigrwydd ymatebion i oroeswyr sy'n rhoi pwyslais ar fenywod ac sy'n groestoriadol yn ganolog i'r Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol. Mae mawr angen ar fenywod a merched, a galw ganddynt, am wasanaethau sydd wedi'u harwain gan fenywod a gwasanaethau menywod yn unig. Maen nhw'n effeithiol o ran gwerth am arian ac effaith gymdeithasol a chânt eu cydnabod yn y DU ac yn rhyngwladaol fel mecanwaith allweddol i sicrhau cydraddoldeb i fenywod, yn unol ag argymhelliad Confensiwn Istanbul. Yn yr un modd, wrth galon y safonau hyn mae ymrwymiad nad oes unrhyw oroeswr sydd ag angen am gymorth yn profi rhwystr rhag cael mynediad at wasanaethau. Mae gwasanaethau arbenigol yn cydnabod ac yn sensitif i brofiadau penodol goroeswyr sy'n wynebu sawl math o ormes, gan gynnwys gormes o ganlyniad i hil, statws mewnfudo, anabledd, rhywioldeb a/neu anfatais luosog, ac maen nhw'n mynd i'r afael â nhw. At hynny, cymorth arbenigol ar gyfer goroeswyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yw hwnnw sy'n ymateb yn ddiwylliannol, sy'n cydnabod ac yn herio'r rhwystrau strwythurol a chymdeithasol systematig sy'n eu hwynebu wrth geisio cymorth, ac sy'n gweithio i ddatblygu partneriaethau teg a chyfartal gyda sefydliadau 'gan ac ar gyfer' pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig er mwyndiwallu anghenion goroeswyr.

Y ffordd orau o sicrhau ymatebion effeithiol i gam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod yw drwy osod goroeswyr a gwasanaethau arbenigol wrth galon dull cymunedol cydgysylltiedig.

Mae gwasanaethau arbenigol yn darparu ymyrraeth gynt i ddatgeliadau, sy'n cael effaith gadarnhaol ar draws polisi cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus yn ogystal ag ar gymunedau lleol. Mae gwasanaethau arbenigol yn trin plant a phobl ifanc fel goroeswyr yn eu rhinwedd eu hunain. Maen nhw'n darparu dulliau effeithiol o atal cam-drin ac amddiffyn teuluoedd rhag ei effeithiau hirdymor tra hefyd yn sicrhau bod yr holl waith a wnant gyda chyflawnwyr yn blaenoriaethu diogelwch a lles goroeswyr.

Mae'n hanfodol bod gwybodaeth ac arbenigedd gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol Cymru a'r Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol yn rhan annatod o arferion comisynu yng Nghymru, er mwyn i arian cyhoeddus gael ei wario'n ddoeth ar ymyriadau diogel ac effeithiol o ansawdd uchel ac er mwyn sicrhau y caiff gwerth ychwanegol darpariaeth arbenigol ei gydnabod. Mae'r Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol wedi'u cynllunio'n benodol i sicrhau bod pob rhan o wasanaethau arbenigol, gan gynnwys eu llywodraethiant, eu harweinyddiaeth, eu rheolaeth o arian ynghyd â'u gwaith o hyfforddi pob aelod o staff, cadw cofnodion a darparu ymyriadau yn ddyddiol, yn adlewyrchu anghenion goroeswyr ac

yn eu gosod yn gwbl ganolog. Bydd cael rhwydwaith cenedlaethol o wasanaethau cam-drin domestig arbenigol achrededig, gan weithio mewn partneriaeth â darparwyr generig anarbenigol a gwasanaethau'r wladwriaeth, yn sicrhau y caiff anghenion goroeswyr eu diwallu ac yn hyrwyddo dealltwriaeth ehangach o sut y mae modd sicrhau newid hirdymor i unigolion, teuluoedd a chymunedau yn y frwydr i roi terfyn ar bob math o drais yn erbyn menywod a merched.



Sara Kirkpatrick, Prif Swyddog Gweithredol Cymorth i Ferched Cymru

# Ynghylch Cymorth i Ferched Cymru

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff ymbarél cenedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i roi terfyn ar gam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod. Welsh Women's Aid is the national umbrella body in Wales working to end domestic abuse, sexual violence, and all forms of violence against women (VAWDASV).

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn ffederasiwn cenedlaethol o 19[1] o wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol annibynnol yn y trydydd sector yng Nghymru a dyma'r corff ymbarél cenedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio gyda'r holl wasanaethau arbenigol a rhanddeiliaid ehangach i atal VAWDASV.

Ers ein sefydlu yn 1978, rydym ni'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol ar gyfer ffederasiwn gwasanaethau VAWDASV arbenigol annibynnol yn y trydydd sector yng Nghymru. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth achub bywyd a newid bywyd i oroeswyr trais a cham-drin (menywod, dynion, plant a theuluoedd) ac yn darparu gwaith ataliol fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y DU.

Ein prif ddiben yw atal cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel i oroeswyr, a'r rheini wedi'u harwain gan anghenion, yn ymateb i rywedd ac yn holistaidd. Rydym ni'n cydweithio'n genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion ac arferion cymunedol yng Nghymru; rydym ni'n darparu cyngor, gwasanaeth ymgynghori, cymorth a hyfforddiant i gyflawni gwelliannau polisi a gwasanaeth ar draws gwasanaethau'r llywodraeth, y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ac mewn cymunedau, a hynny er budd goroeswyr. Mae hyn yn cynnwys

---

1 Mae ein ffederasiwn o wasanaethau VAWDASV arbenigol yng Nghymru, y mae gennym gytundebau partneriaeth cenedlaethol â nhw i sicrhau bod ein gwaith yn gydgysylltiedig ac yn integredig yn cynnwys: Gwasanaeth Cam-drin Domestig Aberconwy, Atal y Fro, Cymorth i Ferched Clwyd Alyn, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, Calan DVS, Cymorth i Ferched Caerdydd, Cymorth i Fenywod Cyfannol, Uned Diogelwch Trais Teuluol (DASU) Gogledd Cymru, Gorwel (Grŵp Cynefin), Montgomeryshire Family Crisis Centre, Cymorth i Ferched Thrive, Cymorth i Ferched Rhondda Cynon Taf, Safer Merthyr Tydfil, Cymru Ddiogelach (gan gynnwys Prosiect Dyn), Stepping Stones, Cymorth i Ferched Abertawe, Threshold, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru, a Canolfan Gefnogi Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC) Gogledd Cymru.

cynghori a chefnogi comisiynwyr ac arweinwyr strategol wrth iddynt ddatblygu asesiadau o anghenion a chynlluniau strategol VAWDASV, hyrwyddo tystiolaeth ar gyfer modelau gwasanaeth arloesol newydd, a chefnogi ymchwil i atal cam-drin.

Ymhlith ein gwasanaethau mae darparu llais cenedlaethol i lywio datblygiadau polisi, deddfwriaethol a strategaethol; rhoi cyngor a gwybodaeth ar ddatblygu a chyflwyno arfer addawol yn y sector; darparu cymorth gyda materion polisi ac ymarfer, ac adroddiadau dadansoddi data rhanbarthol a chenedlaethol i gefnogi gwasanaethau i lywio asesiadau o anghenion lleol, strategaeth, a datblygiadau comisiynu. Rydym ni hefyd yn darparu gwasanaethau uniongyrchol sy'n cefnogi'n haelodaeth a'n gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys:

- Llinell Gymorth Byw Heb Ofn Cymru ar gyfer goroeswyr a theuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan drais rhywiol, cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.

- Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru sy'n darparu hyfforddiant, dysgu a datblygiad yng Nghymru mewn perthynas â phob agwedd ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Rydym ni'n darparu cyrsiau hyfforddi achrededig a chyffredinol gan hyfforddwyr arbenigol.

- Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru sy'n darparu fframwaith achredu cenedlaethol ar gyfer ein haelod-wasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru; fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU wedi'u darparu gan sefydliadau seilwaith sy'n bartneriaid yr ydym ni'n cydweithio â nhw.

- Rhaglen Ymgysylltu â Goroeswyr – sy'n gweithio i ymgysylltu'n ystyrlon â goroeswyr i arfogi arbenigwyr-drwy-brofiad yn briodol a'u galluogi i rannu eu profiadau a mynegi'r gwirionedd i'r rhai sydd â phŵer. Rydym ni'n gwneud hyn drwy ein Rhwydwaith Goroeswyr a thrwy gyfres o ddigwyddiadau ac adnoddau.

Fel ffederasiwn cenedlaethol, mae ein holl waith polisi, ymgyrchu, ymgynghori, hyfforddi ac eirioli wedi'i seilio ar brofiad bywyd gwasanaethau arbenigol lleol a defnyddwyr gwasanaethau. Mae ein llwyddiant yn seiliedig ar sicrhau bod profiadau ac anghenion goroeswyr yn ganolog i'r cyfan a wnawn.

# Ynghylch Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru

Mae Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru yn ffurfio cyfres o feini prawf achrededig lle gall gwasanaethau arbenigol pwrpasol sy'n mynd i'r afael â cham-drin domestig ddangos tystiolaeth o'u hansawdd. Mae nhw hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno deddfwriaeth a chanllawiau allweddol ynghylch ymateb yn effeithiol i gam-drin domestig.

Ym mis Ebrill 2015 daeth Bil Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Y gyfraith hon oedd y gyntaf o'r fath yn y DU i ddarparu ffocws strategol i wella ymatebion y sector cyhoeddus i drais ar sail rhywedd ac mae'n ganlyniad blynyddoedd lawer o bartneriaeth ac ymgyrchu ar ran Cymorth i Ferched Cymru, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol yn cefnogi comisiynu statudol a chanllawiau eraill sy'n bwriadu atal, amddiffyn a chefnogi pobl sydd wedi'u heffeithio gan drais ar sail rhywedd. Drwy ddarparu fframwaith cynhwysfawr i ddangos tystiolaeth o ansawdd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth o wasanaethau, bydd y safonau hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni strategaethau lleol a dangosyddion cenedlaethol, fel sydd wedi'u nodi yn adran 5 ac 11-13 y Ddeddf, yn y drefn honno. Mae gweithredu'r Safonau hyn hefyd yn ychwanegu gwerth at ganllawiau statudol, gan gynnwys y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a'r gwaith o gyflwyno rhaglen hyfforddi'r hyfforddwr, 'Gofyn a Gweithredu'.

Mae Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru yn cyflawni ymrwymiad y Swyddfa Gartref i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched drwy wella darpariaeth leol ac ansawdd gwasanaethau.Fel sy'n cael ei adlewyrchu yn y Safonau, mae strategaeth y Swyddfa Gartref yn cydnabod bod cam-drin domestig yn fater i bob cymuned ac ardal yng Nghymru a Lloegr, a'i fod yn gallu effeithio ar unigolion o unrhyw gefndir neu ddemograffeg economaidd-gymdeithasol.[2]

Mae Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru yn canolbwyntio ar ganlyniadau tymor byr a thymor hwy cyffredinol cefnogi pobl sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin domestig, fel sydd wedi'i amlinellu yn Fframwaith Comisiynu Gwasanaethau Dioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sy'n darparu strwythur i ddarparwyr gwasanaethau i ddioddefwyr er mwyn sicrhau y caiff anghenion holistaidd dioddefwyr eu diwallu. Mae'r safonau'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno Pecyn Cymorth Comisiynu Cymru i Fynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Datganiad Disgwyliadau Cenedlaethol y Swyddfa Gartref ar gyfer Cymru a Lloegr, ac maen nhw'n cyd-fynd ag egwyddorion sydd wedi'u cymeradwyo ym mhecyn cymorth comisiynu Lloegr i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched.[3]

---

2 Y Swyddfa Gartref: A Call to End Violence Against Women and Girls: Action Plan 2013, Llundain, 2013 (t.3)
3 Mae'n cwmpasu cam-drin domestig, trais rhywiol a cham-drin plant, stelcio, yr hyn a elwir yn drais ar sail 'anrhydedd' gan gynnwys priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM), trais sy'n gysylltiedig â gangiau, a masnachu mewn pobl. Mae 'trais yn erbyn menywod a merched' yn cyfeirio at nifer o wahanol fathau o ymddygiad camdriniol ac ymddygiad sy'n rheoli a gaiff eu defnyddio gyda'i gilydd yn fwriadol i reoli person arall, boed hwnnw'n oedolyn neu'n blentyn, neu i gael pŵer drostynt.
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/576238/VAWG_Commissioning_Toolkit.pdf

Mae'r Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol wedi'u mapio yn erbyn:

- Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Y Swyddfa Gartref: Rhoi Terfyn ar Drais yn erbyn Menywod a Merched 2016-2021
- Strategaeth Cymru i fynd i'r afael â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016-2021
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Fframwaith Comisiynu Gwasanaethau Dioddefwyr
- Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru
- Safonau Gwasanaeth Leading Lights SafeLives
- Safonau Gwasanaeth Cenedlaethol Respect
- Safonau Ansawdd Achrededig Imkaan (IAQS)
- Safonau Gwasanaeth Cenedlaethol The Survivors Trust
- Safonau Gwasanaeth Cenedlaethol Rape Crisis England and Wales
- Safonau Gwasanaeth Cenedlaethol Scottish Women's Aid
- Confensiwn Cyngor Ewrop ar atal a mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a thrais domestig
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod (CEDAW)
- Y Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor ar gyfer Cymru (IAQF Cymru)
- Deddf Cam-drin Domestig 2021

Mae'n ofynnol i sefydliadau gwblhau proses achredu ffurfiol gadarn i ddangos eu bod wedi bodloni'r safonau. Gan ymgorffori egwyddorion cyfranogi, llywodraethu tryloyw a ffeministiadd, darparu gwasanaethau sydd wedi'u seilio ar gryfderau ac wedi'u harwain gan anghenion, maen nhw'n nodi natur a safon y gwasanaethau sydd eu hangen i alluogi goroeswyr cam-drin domestig i gynyddu eu dioglewch, ymdopi â'u profiadau o gam-drin a gwella ohonynt.

## Cysylltiadau â chyd-safonau craidd y sector

Mae Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru yn cyd-fynd â chyfres graidd o gyd-safonau. Mae gan Cymorth i Ferched Cymru a Women's Aid Lloegr, Imkaan, Rape Crisis England and Wales, Respect a SafeLives gyfres o safonau ansawdd gwasanaeth sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'u gwaith arbenigol unigryw eu hunain ac i ysgogi gwelliannau ansawdd.[4]

4 Mae Imkaan yn gweithio gyda goroeswyr trais Du a lleiafrifol; Mae Rape Crisis England and Wales yn gweithio gyda menywod a merched sy'n goroesi cael eu treisio a thrais rhywiol; mae Respect yn gweithio gyda dioddefwyr gwrywaidd a chyflawnwyr; mae Safe Lives yn gweithio i roi terfyn ar gam-drin domestig ac i wneud teuluoedd yn ddiogel; mae Women's Aid Lloegr yn gweithio i roi terfyn ar gam-drin domestig yn erbyn menywod a phlant, ac mae Cymorth i Ferched Cymru yn gweithio i roi terfyn ar gam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.

Er mwyn sicrhau y gall comisiynwyr ddefnyddio cyfuniad o safonau gwasanaeth wrth gyd-gomisiynu, mae cyfres o safonau craidd cytunedig wedi'u datblygu y mae modd eu defnyddio at ddibenion cyd-gomisiynu. Nid yw'r cyd-safonau craidd yn orfodol ond maen nhw'n darparu cymorth ac arweiniad i gomisiynwyr eu hystyried wrth ddatblygu cyd-gomisiynu mwy effeithiol ar draws ystod o wasanaethau arbenigol i ddiwallu anghenion goroeswyr yn effeithiol. (Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Pecyn Cymorth Comisiynu Cydweithredol ar Gyfer Gwasanaethau yng Nghymru).

Caiff y cyd-safonau craidd eu nodi a'u cymeradwyo hefyd gan y Swyddfa Gartref yn eu canllawiau ar gefnogi comisiynu lleol.[5] Mae hwn yn nodi er enghraifft ei bod yn bwysig cysoni ansawdd gwasanaethau â'r cyd-safonau craidd cenedlaethol; dylai gwasanaethau gael eu comisiynu ar sail safonau cenedlaethol sy'n berthnasol ar eu cyfer. Dylai enghreifftiau o ofynion arferion a pholisi sylfaenol ymwneud yn benodol â'r cyd-safonau craidd cenedlaethol. Mae'r canllawiau hefyd yn egluro'u statws: mae'r cyd-safonau'n cefnogi comisiynwyr i sicrhau bod modd defnyddio'r safonau annibynnol yn genedlaethol ac yn lleol at ddibenion comisiynu ar y cyd. Nid yw'n fwriad iddynt fod yn annibynnol, ond yn hytrach yn gyd-safonau craidd dynodedig, sef y safonau gofynnol cenedlaethol sy'n gyffredin i'r holl aelod-wasanaethau.

5 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/576238/VAWG_Commissioning_Toolkit.pdf

# Egwyddorion

Mae'r egwyddorion sy'n sail i Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru yn adlewyrchu egwyddorion a dull gweithredu model ymyrraeth Newid sy'n Para, sydd wedi'i ddatblygu gan Women's Aid Federation Lloegr mewn partneriaeth â Cymorth i Ferched Cymru a goroeswyr.

Yr egwyddorion allweddol sy'n sail i ddatblygu Newid sy'n Para yw'r canlynol:

- Dylai ymatebion adeiladu ar yr adnoddau mewnol ac allanol sydd ar gael i unigolion a'u meithrin, gan leihau eu hangen am adnoddau cyhoeddus yn y tymor hwy.
- Mae pob cyswllt â goroeswr yn gyfle i ymyrryd. Ni ddylai gael ei golli a ni ddylai byth ychwanegu at y rhwystrau enfawr sydd eisoes yn wynebu goroeswyr.
- Cefnogi'r rhiant nad yw'n cam-drin yw'r ffordd fwyaf effeithiol o wella diogelwch a lles plant.
- Mae mynd i'r afael ag anghenion diogelwch uniongyrchol goroeswyr a'u plant yn bwysig, ond ni ddylai hyn fod yr unig ffocws mewn ymyriadau.

I grynhoi, elfennau allweddol model Newid sy'n Para yw'r canlynol:

- Mae lleisiau goroeswyr yn ganolog i ddatblygu a darparu ymatebion gwasanaethau.
- Mae gwasanaethau yn gweithio tuag at y nod cyffredin o sicrhau annibyniaeth i oroeswyr.
- Mae yna newid o ddull sy'n seiliedig ar risg i un sy'n dechrau gydag anghenion unigol goroeswyr, gan gynnwys eu diogelwch.
- Caiff goroeswyr eu cefnogi i dynnu ac adeiladu ar eu cryfderau a'u hadnoddau unigol – mae asesiadau anghenion a chynllunio diogewlch yn hwyluso hyn.
- Caiff rhwystrau i gymorth eu dileu neu'u lleihau a chaiff cyfleoedd i gael mynediad at gymorth yn y gymuned eu hehangu drwy gynlluniau lleol 'Gofyn i Fi' a thrwy ddatblygu rôl 'Gweithiwr Proffesiynol ag Ymddiriedaeth'.
- Mae cymunedau'n cynyddu eu dealltwriaeth o drais a cham-drin domestig, a'r rôl y gallant ei gyflawni yn y gwaith o ymateb, drwy ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth â negeseuon allweddol a chyson.
- Caiff plant eu cefnogi i oresgyn effaith cam-drin a chaiff goroeswyr eu cefnogi i'w cynorthwyo yn y broses hon.
- •Mae ffocws y risg yn symud i'r cyflawnwr sydd wedi'i ddwyn i gyfrif ac sy'n derbyn cyfleoedd i newid ei ymddygiad.

## Ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau 'gan ac ar gyfer'

Caiff menywod a merched eu heffeithio'n anghymesur gan gam-drin domestig, trais rhywiol, puteindra, priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu benywod, yr hyn a elwir yn drais 'ar sail anrhydedd', masnachu mewn pobl, stelcio ac aflonyddu rhywiol. Nid yw'r rhain yn ddigwyddiadau ynysig ond yn hytrach maen nhw'n ffurfio patrwm o ymddygiad sy'n torri hawliau menywod a merched, yn cyfyngu ar eu cyfranogiad mewn cymdeithas, yn niweidio'u hiechyd a'u lles. Mae'r ymddygiad wedi'i wreiddio mewn anghydraddoldeb enfawr rhwng menywod a dynion sy'n croestorri â gwahaniaethu ar sail ethnigrwydd, oedran, dosbarth, rhywioldeb ac anabledd i lunio profiadau o gam-drin a thanseilio llwybrau at gymorth.

Dyma pam y mae llawer o wasanaethau'n cael eu harwain gan ac ar gyfer menywod, a chan ac ar gyfer menywod Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ac yn gorfod cael eu harwain ganddynt ac ar eu cyfer. Mae dulliau o'r fath yn galluogi gwasanaethau i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb rhywiol a chroestoriadol o fewn fframwaith darparu gwasanaethau.

- Y mae gosod menywod yn ganolbwynt a bod o dan arweiniad menywod yn darparu'r lle i rannu profiadau y mae rhywedd yn ganolog iddynt a mynd i'r afael â dosbarthiad anghyfartal pŵer ar draws meysydd gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd, ac i ddarparu cymorth sy'n canolbwyntio ar fenywod ac sydd wedi'i lywio gan werthoedd grymuso, hawliau a hunanbenderfyniad.
- Mae pwysigrwydd gwasanaethau gan ac ar gyfer menywod Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yr un mor hanfodol er mwyn cynnig cymorth sy'n ymateb i rywedd a diwylliant, a lle i nodi blaenoriaethau a chryfhau a hyrwyddo arweinyddiaeth, ymreolaeth a hunanbenderfyniad menywod Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Caiff y safonau hyn eu llywio gan ymchwil a thystiolaeth olynol yn y DU ac yn rhyngwladol o'r hyn y mae goroeswyr cam-drin yn ei werthfawrogi gan wasanaethau, hynny yw:

- Bod menywod, dro ar ôl tro, yn gwerthfawrogi gwasanaethau gan ac ar gyfer menywod/menywod Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig am eu bod yn creu lle diogel, yn gorfforol ac yn emosiynol, lle mae menywod yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn datblygu hyder, yn sicrhau mwy o annibyniaeth a hunan-barch.
- Gall dulliau sy'n canolbwyntio ar fenywod ac sy'n ymateb i rywedd fod o gymorth i ddatgloi datrysiadau i broblemau cymhleth a sicrhau canlyniadau lluosog i fenywod a'u teuluoedd, sydd yn ei dro yn gwneud gwell defnydd o adnoddau cyhoeddus.
- Mae cynnal ac adeiladu mudiad cryf o wasanaethau sydd wedi'u harwain gan fenywod, sy'n annibynnol ar y wladwriaeth, yn rhagfynegydd hanfodol eu bod yn mynd i'r afael yn fwy effeithiol â materion cydraddoldeb rhywiol a chroestoriadaol.

Mae gwasanaethau gan ac ar gyfer menywod yn cynnig...

> "sefyllfa unigryw o gael eu cynllunio gan ac ar gyfer menywod. Maen nhw'n bodoli fel ymateb i angen menywod am leodd ar gyfer menywod yn unig, lle mae gwahaniaethau cynnil mewn iaith, rhagdybiaethau a disgwyliadau. Mae eu hagwedd ymatebol ac unigoledig i fenywod yn golygu bod eu harferion yn cael eu newid yn barhaus er mwyn galluogi iddynt fodloni gofynion sy'n flaenoriaeth i fenywod ar unrhyw adeg benodol. Mae ar fenywod angen dulliau sy'n cydnabod ac sy'n seiliedig ar brosesau i oresgyn rhwystrau i ymdopi a symud ymlaen mewn bywyd... Mae lle i fenywod yn unig yn hanfodol gan fod cynifer o fenywod wedi profi trais ar sail rhywedd yn ystod eu hoes. Hyd yn oed yn fwy treiddiol y mae'r ffordd y caiff menywod eu gwneud i deimlo'n israddol, yn amherthnasol neu'n anweladwy o fewn lleoliadau sydd wedi'u dominyddu gan ddynion. Mae menywod yn gwethfawrogi'r hafan ddiogel... sy'n eu galluogi i ddatblygu ymdeimlad o'u hunanieth bersonol a'u hunan-barch... ac sydd â dulliau galluogol, grymusol sy'n cydnabod cryfderau, galluoedd, sgiliau a rhinweddau menywod eu hunain ac sy'n anelu at gredu mewn menywod pan fyddant wedi colli eu hunan-gred eu hunain.[6]

Mae pecynnau cymorth comisiynu VAWDASV Cymru a Lloegr yn cefnogi'r dull hwn, gan nodi'n glir pan fo'r ddarpariaeth yn canolbwyntio ar grwpiau penodol o fewn nodweddion gwarchodedig, y dylai'r fanyleb nodi'n glir ddull 'gan ac ar gyfer' o ddarparu gwasanaethau. Mae'r canllawiau'n nodi, er enghraifft bod:

> "angen i gomisiynwyr... sicrhau eu bod yn ystyried croestoriadedd, a rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau. Er enghraifft, gall goroeswyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig syrthio drwy rwyd modelau darpariaeth prif ffrwd cyfredol heb fynediad at lwybrau i wasanaethau 'gan ac ar gyfer' BME arbenigol. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod llwybrau gofal yn cael eu datblygu a'u darparu gan arbenigwyr (o ba faint bynnag), hyd yn oed os yw y tu allan i'r ardal, a defnyddio neu brynu capasiti dros ben mewn ardal arall. Mae hyn o gymorth i fynd i'r afael â'r loteri cod post presennol o wasanaethau.

6 https://www.womencentredworking.com/wp-content/uploads/2014/08/WCW-defining-an-approachdocument.pdf

# Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol a Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol Cymru (IAQF Cymru)

Mae darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yng Nghymru yn elfen allweddol o Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi 2012-2016, Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-2016, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol Cymru (IAQF Cymru)[7] yn fframwaith safonau sydd wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth Cymru i ddarparu dull cyson o sicrhau a gwarantu gwybodaeth a chyngor o safon i bobl Cymru. Yn benodol, mae IAQF Cymru yn gofyn i wasanaethau cynghori ddangos eu bod:

**Gwasanaeth Cwbl Achrededig sy'n cynnwys adolygu gan gymheiriad**
**Fully Accredited Service with peer review**

IAQF Cymru Wales — Llywodraeth Cymru Welsh Government

darparu gwybodaeth a chyngor o safon i bobl Cymru a hynny mewn modd sy'n gyson
providing a consistent approach to quality information and advice for the people of Wales

- Wedi'u rheoli a'u cynllunio'n dda.
- Yn hygyrch, yn ofalgar ac yn ddiogel.
- Yn darparu cyngor effeithiol er lles defnyddwyr gwasanaethau.
- Yn sicrhau bod gan bob aelod o staff yr ymwybyddiaeth, y wybodaeth a'r sgiliau i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau.
- Yn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg.
- Yn cyfrannu at y saith canlyniad llesiant cenedlaethol sydd wedi'u nodi yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yn 2022, ar ôl cysoni'r Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol i gydymffurfio ag IAQF, cafodd Cymorth i Ferched Cymru statws Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru. O ganlyniad, bydd gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol sy'n gwneud cais am Farc Ansawdd Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru, ac sy'n cael ei ddyfarnu iddynt yn y pendraw, wedi dangos eu bod hwythau hefyd yn bodloni'r meini prawf i gael Marc Ansawdd IAQF ar yr un pryd.

7 https://gov.wales/information-and-advice-quality-framework

Gwnaeth Cymorth i Ferched Cymru gais i fod yn Gorff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru, a hynny ar gais aelod-wasanaethau. O ystyried yr amgylchedd mwyfwy cystadleuol y mae gwasnaethau cam-drin domestig arbenigol ynddo, mae galluogi sefydliadau i gyflawni IAQF Cymru yn ogystal â'r Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol yn rhoi dull ychwanegol i wasanaethau arbenigol ei ddefnyddio i ddangos i oroeswyr, rhanddeiliaid a'u cyllidwyr eu bod yn darparu gwasanaethau o ansawdd cyson sy'n gwella'n barhaus.

Wedi ymuno â pherchnogion fframwaith eraill yng Nghymru i ddod yn gorff achredu IAQF, mae Cymorth i Ferched yn edrych ymlaen at y cyfle i gyfrannu at welliant parhaus IAQF Cymru, a hefyd sector gwybodaeth a chyngor Cymru yn gyffredinol, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau mewn gwell sefyllfa i adnabod a diwallu anghenion holl oroeswyr VAWDASV yng Nghymru.

# Y Broses Asesu

Mae proses asesu'r Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol yn cynnwys:

- Hunanasesiad dogfennol
- Adolygiad ffeiliau-achos thematig
- Ymweliad safle â'r gwasanaeth
- Cyfweliadau â Bwrdd, Prif Swyddog Gweithredol, rheolwyr, staff a defnyddwyr y gwasanaeth
- Penderfyniad terfynol gan banel y Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol wedi'i fynychu gan
    - Brif Swyddog Gweithredol, neu Uwch Reolwr arall Cymorth i Ferched Cymru
    - Ymddiriedolwr Cymorth i Ferched Cymru https://www.welshwomensaid.org.uk/about/trustees-and-ceo/
    - Aelod o staff o sefydliad cysylltiedig megis Respect neu WAFE
    - Cynrychiolydd goroeswyr

Bydd sefydliadau naill ai'n derbyn pàs llawn, pàs amodol neu'n cael eu gohirio. Bydd gofyn i sefydliadau sy'n derbyn argymhellion gyflwyno tystiolaeth sy'n dangos bod yr argymhellion wedi'u cyflawni o fewn tri mis.

Mae'n ofynnol i bob sefydliad achrededig gwblhau asesiad interim hanner ffordd drwy eu cyfnod achredu er mwyn cadarnhau eu bod yn parhau i fodloni'r Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol. Mae'n ofynnol i wasanaethau adnewyddu eu Marc Ansawdd bob tair blynedd.

# Torri'r Safonau

Fel y corff sy'n gosod y Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol ac sy'n rheoli'r broses achredu ochr yn ochr â gweithredu fel corff achredu IAQF, mae Cymorth i Ferched Cymru yn derbyn cyfrifoldeb am gynnal ansawdd y systemau hyn.

Yn unol â Pholisi Cwynion y Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol, os bydd honiad bod gwasanaeth ar unrhyw adeg wedi torri unrhyw un o'r safonau, bydd Cymorth i Ferched Cymru yn cadw'r hawl i gynnal ymchwiliad annibynnol, a gall y mater gael ei gyfeirio'n ôl at Banel y Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol.

Mae'n ofynnol i sefydliadau sy'n dal marc ansawdd Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru a marc ansawdd IAQF Llywodraeth Cymru nodi'r opsiwn i gynyddu unrhyw gwyn i Cymorth i Ferched Cymru o fewn eu polisïau cwynion.

## Cysylltwch

Os hoffech gael copi o weithdrefn gwyno'r Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol neu os hoffech wneud cwyn am sefydliad sy'n dal Marc Ansawdd Cymorth i Ferched Cymru, ysgrifennwch os gwelwch yn dda at:  Panel Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol, Cymorth i Ferched Cymru, Tŷ Pendragon, Plas Caxton, Pentwyn, Caerdydd, CF23 8XE, ebostiwch membership@welshewomensaid.org.uk neu ffoniwch 02920 541551.

# SAFON 1:
# Diogelwch, sicrwydd ac urddas

Caiff hawliau defnyddwyr gwasanaethau i fywyd, rhyddid ac urddas eu cynnal.

## 1.1

**Gall defnyddwyr gwasanaethau gael mynediad at gymorth argyfwng ar unrhyw adeg y mae arnynt angen hynnya gallant dderbyn ymateb prydlon priodol, gan gynnwys mynediad i lety argyfwng dros dro tan bod lle mewn lloches wedi'i ganfod.**

**Canllawiau:** Dylai unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth fedru cael mynediad at gymorth ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos, ac ar unrhyw adeg ar eu taith bersonol. Dylai hyn gynnwys darpariaeth y tu allan i oriau, 365 niwrnod y flwyddyn. Pan fo'n angenrheidiol, dylid cynorthwyo defnyddwyr gwasanaethaui gael mynediad at lety argyfwng y tu allan i oriau, boed hwnnw'n lloches neu'n llety dros dro gan yr awdurdod lleol.

## 1.2

**Caiff defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi'u heffeithio gan anfantais luosog, gan gynnwys camddefnydd problematig o sylweddau, salwch meddwl, cyswllt â'r system cyfiawnder troseddol a chamfantesio rhywiol, eu hasesu a chânt gynnig gwasanaeth ar yr un sail ag eraill, a chaiff pob ymdrech ei wneud i ddiwallu eu hanghenion unigol.**

**Canllawiau:** Ni ddylai goroeswyr sydd wedi'u heffeitho gan anfantais lusosg, neu gan yr hyn a elwir yn "anghenion cymhleth", syrthio drwy'r craciau cymorth a rhaid iddynt allu cael mynediad at gymorth priodol i ddiwallu eu hanghenion unigol. Dylai gwasanaethau'r sefydliad, gan gynnwys darpariaeth lloches, fod yn hygyrch i oroeswyr sydd wedi'u heffeithio gan gamddefnydd problematig o sylweddau a / neu salwch meddwl, y rheini sydd wedi cael cyswllt â'r system cyfiawnder troseddol a'r rheini sydd wedi profi camfanteisio rhywiol. Mae sefydliadau'n cydnabod y stigma a'r rhwystrau strwythurol y gallai'r rheini sydd wedi'u heffeithio gan anfantais luosog eu hwynebu, ac yn cymryd camau i unioni hyn drwy'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd. Mae ymatebion yn dangos dealltwriaeth o weithio gydag anfantais luosog drwy ddull sydd wedi'i lywio gan drawma. Mae ymatebion yn cydnabod y trawma y mae defnyddwyr gwasanaethau'neu profi drwy gydol eu taith ac yn ystyried ymddygiadau fel strategaethau i reoli, addasu ac atgyfnerthu. Caiff goroeswyr eu cynorthwyo i adnabod a deall eu trawma a, phan fo'n angenrheidiol, i ddatblygu strategaethau amgen i'w reoli.

## 1.3 Nid oes unrhyw ddefnyddiwr sydd ag angen am gymorth yn profi rhwystr rhag cael mynediad i'r gwasanaeth oherwydd mai Cymraeg yw ei iaith gyntaf.

**Canllawiau**: Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i sicrhau ei fod yn hygyrch i ddefnyddwyr Cymraeg eu hiaith. Mae cyhoeddusrwydd ar gael yn y Gymraeg, mae'r gwasanaeth yn darparu cyfieithwyr a/neu'n darparu cymorth yn y Gymraeg.

## 1.4 Ni chaiff unrhyw oroeswr sydd ag angen am gymorth ei wrthod rhag cael mynediad i wasanaeth oherwydd nad Saesneg yw ei iaith gyntaf, oherwydd ei statws mewnfudo neu oherwydd nad oes ganddo hawl i gael arian cyhoeddus.

**Canllawiau:** Dylai pob rhan o'r gwasanaeth fod yn hyblyg i oroeswyr mudol a dylid darparu cymorth wedi'i deilwra i'w hanghenion. Dylai gwaith partneriaeth fod yn ei le i ddiwallu anghenion penodol y rheini sydd â statws mewnfudo ansicr gan gynnwys gyda darparwyr arbenigol lleol a chenedlaethol 'gan ac ar gyfer' pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, gwasanaethau cyfieithu a mewnfudo. Dylai ymatebion ddangos dealltwriaeth o amrywiol anghenion goroeswyr mudol a'r rhwystrau i geisio cymorth a diogelwch sydd wedi'u creu gan hiliaeth sefydliadol a pholisïau mewnfudo'r llywodraeth. Dylai ymatebion ddangos dealltwriaeth o weithio o fewn dull sydd wedi'i lywio gan drawma, gan ddarparu cymorth sy'n cydnabod y trawma y mae defnyddwyr gwasanaethau wedi'i brofi ar hyd eutaith ac sy'n sensitifi effaith hyn.

## 1.5 Mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu'n rhagweithiol ag ymatebion amlasiantaeth i gefnogi goroeswyr cam-drin domestig.

**Canllawiau:** Dylai pob rhan o'r gwasanaeth weithio o fewn model ymateb cymunedol cydgysylltiedig – gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y llysoedd, a gwasanaethau iechyd, addysg, cyfreithiol, mudol a thai, i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau, cynyddu diogelwch goroeswyr a dwyn cyflawnwyr i gyfrif. Mae'r gwasanaeth yn cynrychioli defnyddwyr gwasanaeth yn MARAC ac mae wedi ymrwymo i rannu protocolau MARAC.

**1.6** **Mae'r sefydliad yn darparu, yn amddiffyn ac yn rhoi gwerth arfannau ar gyfer menywod yn unig sy'n ddiogel ac yn hygyrch i fenywod sy'n defnyddio gwasanaethau.**

**Canllawiau:** Dylai'r gwasanaeth ddarparu llety preswyl diogel i fenywod yn unig a mannau cymunedol ar gyfer menywod sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn deall pwysigrwydd y mannau hyn a gwasanaethau sydd â menywod yn ganolbwynt iddynt, ac yn deall yr angen amdanynt. Mae'r mannau yn groesawgar a hygyrch, gan greu ymdeimlad o ddiogelwch a thawelwch i ddefnyddwyr gwasanaethau.

**1.7** **Mae'rddarpariaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau sy'n wrywaidd wedi'igwahanu'n ddiogel oddi wrth wasanaethau ar gyfer defnyddwyr sy'n fenywod a chyflawnwyr.**

**Canllawiau:** Mae'r gwasanaeth yn sicrhau lleoliadau a mannau priodol a diogel ar wahân ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau sy'n wrywaidd lle caiff gwasanaeth ei ddarparu ar eu cyfer.

**1.8** **Mae gwasanaethau ar gyfer goroeswyr gwrywaidd wedi'u teilwra i'w hanghenion ac yn cael eu darparu'n ddiogel, gan ddefnyddio offeryn asesu cydnabyddedig i adolygu'r risg a'r angen.**

**Canllawiau:** Mae'r gwasanaeth yn deall yr angen am wasanaeth sy'n ymateb i rywedd, sy'n diwallu anghenion gwahanol goroeswyr sy'n ddynion a goroeswyr sy'n fenywod. Rhaid darparu pob rhan o'r gwasanaeth drwy arferion gwaith diogel sydd wedi'u cynllunio i asesu a diwallu anghenion penodol dioddefwyr gwrywaidd, anodi cyflawnwyr, yn unol â phecyn cymorth asesu Prosiect Dyn Cymru Ddiogelach neu ddilyn safonau Respect, sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol, ar gyfer gwaith gyda chyflawnwyr gwrywaidd.Dylai hyn gynnwys nodi atgyfeiriadau amhriodol i wasanaethau dioddefwyr gwrywaidd cyn gynted â phosibl a galluogi mynediad at gymorth priodol amgen gan gynnwys rhaglenni newid ymddygiad.

## 1.9

**Mae'r holl waith gyda chyflawnwyr yn blaenoriaethu diogelwch a lles goroeswyr, mae wedi'i achredu gan Respect fel un diogel ac effeithiol, mae wedi'i ddarparu o fewn arferion gwaith diogel sefydledig gan ymarferwyr sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig, ac mae'n gysylltiedig â Gwasanaethau Cymorth Integredig cyfatebol ar gyfer goroeswyr.**

**Canllawiau:** Wrth weithio gyda chyflawnwyr, rhaid i'r gwasanaeth weithredu o fewn arferion gwaith diogel sydd eisoes wedi'u sefydlu, gan flaenoriaethu diogelwch a lles goroeswyr a'u plant ac eirioli ar eu rhan. Mae unrhyw waith gyda chyflawnwyr wedi'i integreiddio â gwaith diogelwch partner priodol. Mae gan y Gwasanaethau Cymorth Integerdig ar gyfer goroeswyr a phob ymyriad gyda chyflawnwyr, gan gynnwys rhaglenni asesu teulu cyfan, fodel gwaith ysgrifenedig a phrosesau rheoli risg clir. Lle bo hynny'n ddiogel, mae Gwasanaethau Cymorth Integredig yn cysylltuâ phob goroeswr sydd mewn perygl ac yn cynnig cymorth iddynt, yn darparu gwybodaeth iddynt ar natur ac effaith bosibl ymyriadau, ac maen nhw ar gael i oroeswyr ar gyfer rhaglenni newid ymddygiad yn eu cyfanrwydd. Caiff gwaith newid ymddygid gyda chyflawnwyr ei gyflawni yn unol ag egwyddorion Respect ar gyfer ymyriadau diogel ac effeithiol, ac mae wedi'i achredu gan Respect neu'n gweithio tuag at hynny. Pan nad yw ymyriadau yn gymwys ar gyfer eu hachredu gan Respect, glynwch wrth Safonau Gwasanaeth Cyflawnwyr Llywodraeth Cymru. Mae gwaith gyda chyflawnwyr wedi'i wahanu'n ddiogel oddi wrth waith gyda goroeswyr ac mae gan staff hyfforddiant arbenigol i weithio gyda chyflawnwyr neu i ddarparu'r ISS.

## 1.10

**Mae'r sefydliad yn diogelu diogelwch defnyddwyr gwasanaethau drwy ddefnyddio cyfeiriadau cyfrinachol, mesurau diogelwch trwyadl a darpariaeth rithiol ddiogel.**

**Canllawiau:** Mae'r gwasanaeth yn cymryd camau priodol i warchod diogelwch defnyddwyr gan gynnwys drwy eu hamddiffyn, yn y gymuned ac ar-lein, rhag ymdrechion gan gyflawnwyr i gysylltu â nhw neu ddod o hyd i'w lleoliad mewn lloches.

## 1.11 Mae'r sefydliad yn cefnogi defnyddwyr gwasanaethau i gadw eu hunain yn ddiogel ac mae'n lleihau'r pwysau a'r rheolaeth emosiynol y maen nhw'n eu dioddef gan eu cyflawnwyr.

**Canllawiau:** Mae'r gwasanaeth yn darparu gwaith unigol a/neu grŵp gyda defnyddwyr i fynd i'r afael â'u diogelwch corfforol, emosiynol a seicolegol. Caiff cynlluniau diogelwch pwrpasol, sy'n cynnwys cynyddu diogelwch goroeswyr ar-lein, eu cyd-gynhyrchu a'u hadolygu'n rheolaidd gyda phob defnyddiwr gwasanaeth. Mae'r gwaith hwn wedi'i lywio gan drawma, wedi'i seilio ar gryfderau, ac mae wedi'i arwain gan anghenion, cryfderau a gallu pob defnyddiwr gwasanaeth.

## 1.12 Caiff defnyddwyr gwasanaethau eu cefnogi i adrodd i'r heddlu ac i gymryd rhan yn y systemau cyfiawnder troseddol a sifil.

**Canllawiau:** Dylai sefydliadau gefnogi goroeswyr i gael cyngor cyfreithiol cymwys ar faterion cyfraith trosedd a sifil, gan gynnwys gwaharddebau sifil, cyswllt plant, ysgariad a mewnfudo. Mae sefydliadau yn deall y rhwystrau y mae gwahanol grwpiau o oroeswyr yn eu hwynebu wrth adrodd i'r heddlu ac yn cefnogi defnyddwyr i ymdopi â'r gwaith o adrodd pan maen nhw'n dymuno gwneud hynny. Mae sefydliadau yn eiriol ar ran goroeswyr yn unigol ac yn sefydliadol, er mwyn gwella mynediad i hawliau goroeswyr.

# SAFON 2:
# Hawliau a mynediad

Caiff mynediad cyfartal i hawliau ei sicrhau i bawb ac ymdrinnir ârhwystrau i gydraddoldeb.

2.1

**Mae'r gwasanaeth yn credu defnyddwyr ac yn gwrando arnynt gyda pharch a sensitifrwydd.**

**Canllawiau:** Rhaid i ddefnyddwyr gwasanaethau deimlo eu bod yn cael eu clywed a'u parchu gan y gwasanaeth ym mhob pwynt cyswllt, lle bynnag y maen nhw ar eu taith. Dylai staff ddangos empathi ac arferion anfeirniadol bob amser.

2.2

**Caiff defnyddwyr gwasanaethau eu hysbysu am eu hawliau cyfreithiol a dynol ac am y gwasanaethau y mae ganddynt hawl i'w derbyn.**

**Canllawiau:** Caiff gwybodaeth ei darparu i bob defnyddiwr gwasanaetham eu hawliau cyfreithiol a dynol a'r gwasanaethau o fewn y sefydliad y mae ganddynt hawl i gael mynediad atynt, a hynny ar ffurf hygyrch gydag eglurder ynghylch sut y mae modd cael gafael ar hyn.

2.3

**Mae ymyriadau ac arferion gwasanaeth yn parchu hawliau defnyddwyr gwasanaeth i gyfrinachedd a hysbysir defnyddwyr gwasanaeth o sefyllfaoedd lle gallai'r cyfrinachedd hwnnw fod yn gyfyngedig.**

**Canllawiau:** Rhaid i'r gwasanaeth gadw protocolau cadw cofnodion a rhannu gwybodaeth yn ddiogel, sy'n gweithredu er budd defnyddwyr, gan gynnwys plant, yn hytrach na buddiannau neu gyfleustra asiantaethau. Caiff defnyddwyr gwasanaethau eu cynghori'n glir ynghylch eu hawliau i gyfrinachedd.

## 2.4

**Mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau amser i wneud penderfyniadau gwybodus. Ni chaiff unrhyw gamau eu cymryd ar eu rhan heb eu caniatâd neu heb wybodaeth flaenorol, oni bai bod yna angen sy'n drech na hynny i ddiogelu plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed.**

**Canllawiau:** Mae'r sefydliad yn grymuso gwasanaethau i wneud penderfyniadau gwybodus ac yn sicrhau  eu bod yn derbyn caniatâd gwybodus cyn cymryd unrhyw gamau ar ran defnyddiwr gwasanaeth. Mae gan y gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau effeithiol yn eu lle i ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed.

## 2.5

**Mae'r sefydliad yn monitro proffiliau'r defnyddwyr gwasanaethau er mwyn nodi a mynd i'r afael â thangynrychiolaeth grwpiau â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.**

**Canllawiau:** Dylai'r gwasanaeth ddefnyddio ffurflenni monitro cydraddoldeb i nodi nodweddion gwarchodedig defnyddwyr gwasanaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Dylid adolygu data ar broffiliau defnyddwyr gwasanaethau yn erbyn y boblogaeth leol a strategaethau sydd wedi'u datblygu i fynd i'r afael ag unrhyw dangynrychiolaeth mewn unrhyw gategori.

## 2.6

**Mae'r sefydliad yn monitro proffiliau rheolwyr a staff i sicrhau eu bod yn adlewyrchu amrywiaeth y defnyddwyr gwasanaethau o ran eu nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.**

**Canllawiau:** Dylai'r gwasanaeth ddefnyddio ffurflenni monitro cydraddoldeb i nodi nodweddion gwarchodedig ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Dylid adolygu data ar broffiliau staff yn erbyn proffiliau defnyddwyr gwasanaethau a strategaethau sydd wedi'u datblygu i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth mewn unrhyw gategori.

## 2.7 Mae anghenion penodol ac unigol defnyddwyr gwasanaethau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn derbyn sylw, ac mae mesurau wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â rhwystrau i fynediad.

**Canllawiau:** Mae'r cymorth ar gyfer goroeswyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig , gan gynnwys Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn dangos sensitifrwydd a dealltwriaeth diwylliannol, gan gynnwys sut y gall perthnasoedd amrywiol goroeswyr â diwylliant a chymunedau lunio'u profiadau o gam-drin, effeithio ar eu mynediad i wasanaethau a rhwydweithiau cymorth. Caiff camau eu cymryd i fynd i'r afael â phrofiadau defnyddwyr o hiliaeth. Mae partneriaethau a llwybrau atgyfeirio effeithiol yn eu lle gan sefydliadau arbenigol 'gan ac ar gyfer' menywod Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig er mwyn lleihau unigedd a mynd i'r afael â'r rhwystrau i'w diogelwch a'u hannibyniaeth.

## 2.8 Mae'r sefydliad yn dileu neu'n lleihau rhwystrau i fynediad corfforol, cymorth a chyfathrebu i ddefnyddwyr anabl ac mae'n defnyddio model cymdeithasol yn hytrach na meddygol ar gyfer anabledd i ddiwallu anghenion defnyddwyr anabl.

**Canllawiau:** Mae polisi ac ymarfer sefydliadol yn dangos bod pobl ag anableddau'n cael eu dadrymuso gan gymdeithas yn hytrach na chan eu nam, a bod ymarfer yn rhagweithiol o ran lleihau'r rhwystrau i ddefnyddwyr gwasnaethau sydd ag unrhyw fath o anabledd.

## 2.9 Mae'r sefydliad yn sicrhau ei fod yn hygyrch i anghenion defnyddwyr gwasanaethau lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol a'i fod yn diwallu'r anghenion hynny.

**Canllawiau:** Mae mesurau mewnol yn mynd i'r afael â phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau o homoffobia a thrawsffobia. Mae gwaith partneriaeth a llwybrau atgyfeirio wedi'u sefydlu gyda gwasanaethau sydd wedi'u harwain gan ddefnyddwyr ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol i leihau unigedd a mynd i'r afael â rhwystrau i'w diogelwch a'u hannibyniaeth.

# SAFON 3:
# Iechyd corfforol ac emosiynol

Caiff hawliau defnyddwyr i'r safonau uchaf y mae modd eu cyrraedd o ran iechyd corfforol, rhywiol, atgenhedlol a meddyliol eu cynnal, gan hyrwyddo adferiad a lles hirdymor.

## 3.1

**Mae'r sefydliad yn sicrhau bod gan ddefnyddwyr gwasanaethau fynediad at wasanaethau gofal iechyd corfforol sy'n benodol i'w hanghenion.**

**Canllawiau:** Rhaid i asesiadau anghenion a chynllunio cymorth fynd i'r afael ag anghenion iechyd corfforol defnyddwyr gwasanaethau; drwy lwybrau atgyfeirio i wasanaethau iechyd lleol, fel sy'n briodol i anghenion pob defnyddiwr unigol.

## 3.2

**Caiff defnyddwyr gwasanaethau eu cefnogi i gael mynediad i wasanaethau cyngor iechyd rhywiol a beichiogrwydd ac i archwilio eu hopsiynau yn ystod beichiogrwydd, gan gynnwys eu hawl i ddewis terfynu.**

**Canllawiau:** Rhaid i asesiadau anghenion a chynllunio cymorth fynd i'r afael ag anghenion iechyd rhywiol ac anghenion beichiogrwydd defnyddwyr gwasanaethau. Dylai'r gwasanaeth feithrin perthynas waith ragorol â gwasanaethau cyngor iechyd rhywiol a beichiogrwydd gan gynnwys cyngor erthylu.Caiff defnyddwyr eu cefnogi i wneud penderfyniadau gwybodus a manteisir ar bob cyfle i archwilio'r posibilrwydd o gam-drin rhywiol wrth ddarparu cymorth ynghylch iechyd rhywiol a beichiogrwydd.

## 3.3

**Caiff defnyddwyr gwasanaeth eu cynorthwyo i ddatgelu pob math o drais rhywiol ac i gael mynediad i wasanaethau arbenigol i fynd i'r afael â hyn.**

**Canllawiau:** Dylai'r gwasanaeth gymryd camau mewnol i gefnogi datgelu pob math o drais rhywiol, gan gynnwys camfanteisio rhywiol, masnachu mewn pobl, anffurfio organau cenhedlu benywod, cam-drin rhywiol yn ystod plentyndod a chamfanteisio rhywiol yn ystod plentyndod. Dylai'r gwasanaeth gefnogi goroeswyr i gael mynediad at gymorth therapiwtig ac eiriolaeth, sydd wedi'u darparu o safbwynt ffeministaidd, gan wasanaethau trais rhywiol arbenigol.

## 3.4 Caiff defnyddwyr gwasanaethau eu cynorthwyo i gael mynediad at gymorth arbenigol i reoli salwch meddwl.

**Canllawiau:** Dylai'r gwasanaeth gynorthwyo goroeswyr i gael mynediad at gymorth arbenigol i reoli salwch meddwl mewn lloches ac yn y gymuned drwy lwybrau atgyfeirio a gwaith partneraieth.

## 3.5 Caiff defnyddwyr gwasanaeth eu cynorthwyo i gael mynediad at gymorth arbenigol i reoli'r defnydd problemus o sylweddau.

**Canllawiau:** Dylai'r gwasanaeth gynorthwyo goroeswyr i gael mynediad at gymorth arbenigol i reoli'r defnydd problemus o sylweddau mewn lloches ac yn y gymuned, drwy lwybrau atgyfeirio a gwaith partneriaeth.

## 3.6 Mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau fynediad at gwnsela unigol neu waith grŵp i adnabod eu cryfderau a'u hadnoddau a chynyddu eu gallu i adnabod rheolaeth drwy orfodaeth.

**Canllawiau:** Mae'r gwasanaeth yn galluogi mynediad at gwnsela unigol a/neu waith grŵp sy'n seiliedig ar ddull ffeminisataidd ac sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhywiol. Caiff offer eu darparu ar gyfer datblygu hyder a phendantrwydd, er mwyn adnabod arwyddion rheolaeth drwy orfodaeth ac er mwyn cefnogi taith goroeswyr at adferiad a newid sy'n para.

# SAFON 4:
# Sefydlogrwydd, gwydnwch ac ymreolaeth

Caiff defnyddwyr gwasanaethau eu cynorthwyo i sefydlu sefydlogrwydd, annibyniaeth a rhyddid hirdymor rhag camdriniaeth.

## 4.1

**Caiff anghenion defnyddwyr gwasanaethau eu hasesu wrth iddynt ddod i mewn i'r gwasanaeth a chânt eu hadolygu drwy gydol y cymorth, gan gynnwys eu diogelwch corfforol, eu hanghenion iechyd, anghenion eu plant, eu hanghenion cyfreithiol, a'u lles cymdeithasol ac economaidd, er mwyn adnabod y rhwystrau i ddiogelwch ac annibyniaeth ac er mwyn mynd i'r afael â nhw.**

**Canllawiau:** Dylai cymorth a mynediad i wasanaethau gael eu seilio ar anghenion unigol pob goroeswr. Dylid cwblhau asesiadau anghenion holistaidd gyda phob goroeswr a  dylid eu hadolygu'n rheolaidd drwy gydol y cymorth. Dylai asesiadau fod yn seiliedig ar gryfderau, wedi'i llywio gan drawma ac wedi'u cydgynhyrchu, gan roi llais i bob defnyddiwr gwasanaeth a'i amgylchiadau penodol.

## 4.2

**Mae'r sefydliad yn cefnogi defnyddwyr gwasanaethau i fynegi eu hanghenion, i gael mynediad at eu hawliau ac i reoli eu penderfyniadau ynghylch eu bywydau eu hunain.**

**Canllawiau:** Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth ar sail anghenion sydd wedi'i arwain gan y goroeswr ei hun. Dylid cynnal sesiynau cymorth rheoliadd wedi'u cynllunio yn ystod camau cychwynnol y cymorth, wedi'u dilyn gan sesiynau cymorth hyblyg sydd wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion tymor hwy y defnyddwyr gwasanaeth.

## 4.3

**Caiff defnyddwyr gwasanaethau eu hannog i adnabodnodau ar gyfer y dyfodol neu gynnal addysg, hyfforddiant a chyflogaeth er mwyn sicrhau eu bod mor annibynnol â phosibl.**

**Canllawiau:** Dylai'r gwasanaeth alluogi defnyddwyr i gael mynediad at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, gan gynnwys cymorth sgiliau bywyd, drwy ganolfannau menywod neu wasanaethau pridol eraill, yn enwedig yn ystod y broses ymadael ac ailsefydlu.

## 4.4 Caiff defnyddwyr gwasanaethau eu cefnogi i gymryd rhan ym mywyd y gymuned ac i ddatblygu rhwydweithiau cymorth cryf.

**Canllawiau:** Dylid galluogi defnyddwyr gwasanaethau i fod yn rhan o gymunedau cynhwysol goroeswyr ac ailadeiladau rhwydweithiau cymorth diogel yn y gymuned er mwyn sicrhau annibyniaeth lawn.

## 4.5 Caiff defnyddwyr gwasanaethau eu cynorthwyo i sicrhau sefydlogrwydd ac annibyniaeth ariannol.

**Canllawiau:** Gall defnyddwyr gwasanaethau gael cymorth i wneud cais am fudd-daliadau, gwasanaethau cyngor ariannol a chyngor ar ddyledion arbenigol gan gynnwys mynd i'r afael â cham-drin economaidd a chymorth gyda sgiliau rheoli arian.

## 4.6 Caiff defnyddwyr gwasanaethau eu cynorthwyo i fod yn ddiogel yn eu cartrefi neu i gael mynediad at lety parhaol diogel arall a chânt eu harfogi i gynnal eu tenantiaethau annibynnol.

**Canllawiau:** Caiff defnyddwyr gwasanaethau eu cynorthwyo i fod yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain neu i gael mynediad i lety diogel parhaol arall, yn unol â dymuniadau'r goroeswyr. Caiff defnyddwyr gwasanaethau eu cynorthwyo i gynyddu diogelwch eu cartrefi a/neu i gael mynediad at gyngor/cymorth tai a digartrefedd. Mae'r sefydliad yn eiriol ar ran goroeswyr i'w cefnogi i gynnal llety diogel neu gael mynediad ato, lle bo angen.

## 4.7 Mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau fynediad i wasanaethau ailsefydlu a dilynol a strategaethau ymadael wedi'u teilwra i anghenion unigol, sy'n ddigonol i gynnal eu symudiad at annibyniaeth heb hyrwyddo dibyniaeth.

**Canllawiau:** Mae darpariaeth cymorth ailsefydlu ar gael i wneud y gorau o'r cyfleodd i ddefnyddwyr gwasanaethau gynnal tenantiaethau newydd a'u symudiad at annibyniaeth. Mae cymorth tymor hwy ar gael i'r rheini sydd ei angen. Caiff strategaethu ymadael, sydd wedi'u teilwra a'u cynllunio, eu datblygu gyda phob defnyddiwr gwasanaeth sy'n cynnwys adolygiad o'r risg a chynllunio diogelwch.

# SAFON 5:
# Plant a phobl ifanc

Caiff hawliau plant a phobl ifanc i ddiogelwch, addysg a bywyd teuluol eu cynnal.Caiff plant eu trin a'u cefnogi fel goroeswyr yn eu rhinwedd eu hunain.

## 5.1

**Mae diogelwch a lles plant a phobl ifanc yn derbyn sylw drwy'r broses asesu anghenion a chynllunio cymorth.**

**Canllawiau:** Mae'r gwasanaeth yn ystyried plant a phobl ifanc yn oroeswyr yn eu rhinwedd eu hunain ac yn rhoi cymorth iddynt sy'n briodol i oedran ac sy'n ddiwylliannol sensitifar sail eu hanghenion unigol. Mae gan blant a phobl ifanc eu hanghenion asesu a chymorth eu hunain sy'n rhoi llais iddynt ac sy'n mynd i'r afael â'u diogelwch a'u lles. Caiff camau priodol eu nodi a'u cymryd i amddiffyn plant, lle bo angen. Nid yw'r cymorth a gaiff ei ddarparu yn gaeth i fformiwla ond caiff ei bennu gan anghenion, adnoddau, gwydnwch a gallu plant a phobl ifanc unigol. Mae'r cymorth yn diwallu amrywiol anghenion plant a phobl ifanc gan gynnwys anghenion plant a phobl ifanc anabl, LGBT a DU, Asiaidd a Lleifarifoedd Ethnig.

## 5.2

**Mae'r sefydliad yn cefnogi defnyddwyr gwasanaethau i gael gofal plant priodol yn ystod apwyntiadau.**

**Canllawiau:** Mae'r sefydliad yn cefnogi defnyddwyr gwasanaethaui gael mynediad at ofal plant priodol yn ystod apwyntiadau gan gynnwys apwyntiadau gydag asiantaethau eraill a gwaith grŵp therapiwtig.

## 5.3

**Mae'r sefydliad yn ymateb i farn plant a phobl ifanc.**

**Canllawiau:** Dylai'r gwasanaeth ymgynghori'n rheolaidd â phlant a phobl ifanc er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch eu gwasanaethau, eu gweithgareddau a'u mannau chwarae ac astudio, a'u hatgyfeirio at wasanaethau allanol.

## 5.4 Mae'r sefydliad yn rhoi cymorth wedi'i deilwra i ddefnyddwyr gwasanaethaubenywaidd ifanc i feithrin eu hyder a'u pendantrwydd mewn perthnasoedd a'u dealltwriaeth o drais yn erbyn menywod.

**Canllawiau:** Mae'r sefydliadyn cydnabod anghenion penodol merched a menywod ifanc sydd wedi cael eu cam-drin ac mae'n darparu cymorth wedi'i deilwra i godi eu hymwybyddiaeth o anghydraddoldeb rhywiol ac i archwilio materion cydsyniad, pendantrwydd mewn perthynas a hunan-barch.

## 5.5 Caiff plant a phobl ifanc eu cefnogi i fynychu meithrinfa, ysgol acholeg ac i gael mynediad at weithgareddau cymdeithasol a hamdden gyda'u cyfoedion.

**Canllawiau:** Dylai'r sefydliad sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cofrestru'n brydlon mewn meithrinfeydd, ysgolion a cholegau a galluogi mynediad at weithgareddau cymdeithasol a hamdden gyda chyfoedion.

## 5.6 Caiff plant a phobl ifanc eu cynorthwyo i gael mynediad at wasanaethau iechyd corfforol, meddyliol a rhywiol sy'n briodol i'w hanghenion.

**Canllawiau:** Mae gwasanethau'n cynnal asesiadau a chynlluniau cymorth, sy'n briodol i'w hoedran, gyda phlant a phobl ifanc, i adnabod eu hanghenion corfforol, meddyliol, rhywiol ac atgenhedlol a mynd i'r afael â nhw.

## 5.7 Caiff plant eu cefnogi i ddeall eu profiadau o gam-drin domestig er mwyn meithrin eu gwydnwch a'u hyder.

**Canllawiau:** Dylai sefydliadau ddarparu gwaith arbenigol i blant neu gynnig atgyfeiriad i wasanaethau therapiwtig a/neu gymorth priodol i blant a phobl ifanc, er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau cam-drin domestig.

## 5.8

**Caiff cymorth ei ddarparu i ddefnyddwyr gwasanaethau ddatblygu eu hadnoddau rhianta, er mwyn cynnal a chryfhau eu perthnasoedd â phlant.**

**Canllawiau:** Dylai sefydliadau ddarparu gwaith cymorth rhianta sy'n cryfhau cryfderau personol ac sy'n defnyddio sgiliau ac adnoddau unigol a chymunedol.

## 5.9

**Mae'r sefydliad yn argymell cymorth priodol i'r rhiant nad yw'n cam-drin i wella diogelwch a lles plant mewn achosion llysoedd teulu ac amddiffyn plant.**

**Canllawiau:** Mae'r sefydliad yn darparu cymorth ac eiriolaeth i oroeswyr sy'n ymwneud ag achosion llysoedd teulu, cyswllt plant ac amddiffyn plant, ac y mae eu plant wedi'u tynnu o'u gofal.

## 5.10

**Mae gan y sefydliad bolisïau a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer diogelu plant.**

**Canllawiau:** Mae polisïau a gweithdrefnaudiogelu priodol yn eu lle, ochr yn ochr â hyfforddiant parhaus i staff a gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau ynghylch dull y sefydliad o ddiogelu plant, yn ogystal â rôl a chyfrifoldebau'r Gwasanaethau Plant. Mae hyfforddiant yn cynnwys y peryglon sy'n cael eu creu gan arferion niweidiol gan gynnwys anffurfio organau cenhedlu benywod/priodas dan orfod/yr hyn a elwir yn drais 'ar sail anrhydedd'.

# SAFON 6:
# Arweinyddiaeth ac atal

Mae lleisiau menywod a merched yn arwain y gwaith o ddatblygu ymatebion strategol i drais yn erbyn menywod a merched.

## 6.1

**Mae'r sefydliad yn ymgysylltu â'r Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol leol ac yn cefnogi goroeswyr i ymgysylltu'n unigol neu drwy fforymau goroeswyr.**

**Canllawiau:** Mae'r sefydliad yn argymell yr angen i gynnwys goroeswyr mewn ymgynghori a thrafod strategol allanol, ac iddynt gael eu cydnabod fel partneriaid 'arbenigol' wrth gynllunio a gwella gwasanaethau. Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth i ystod amrywiol o grwpiau goroeswyr, fforymau goroeswyr annibynnol a goroeswyr unigol sydd wedi symud at annibyniaeth, er mwyn cymryd rhan fel partneriaid cyfartal mewn ymgynghoriadau a thrafodaethau strategol allanol.

## 6.2

**Mae'r sefydliad yn cyfrannu at fentrau i addysgu plant a phobl ifanc ynghylch cydsynio, perthnasoedd iach, anghydraddoldeb rhywiol a thrais yn erbyn menywod a merched.**

**Canllawiau:** Mae'r sefydliad yn cymryd rhan mewn partneriaethau i wneud gwaith addysgol gyda phobl ifanc ar berthnasoedd iach, anghydraddoldeb rhywiol a thrais yn erbyn menywod a merched.

## 6.3

**Mae'r sefydliad yn cyfrannu at hyfforddiant a chyflwyniadau i godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod a merched ac anghenion goroeswyr, mewn cymunedau ac o fewn asiantaethau eraill.**

**Canllawiau:** Mae'r sefydliad yn cymryd rhan mewn mentrau i ddarparu hyfforddiant amlasiantaeth a chodi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig fel math o drais ar sail rhywedd. Mae sesiynau'n hyrwyddo ymwybyddiaeth o anghenion a phrofiadau penodol goroeswyr sy'n wynebu sawl math o ormes gan gynnwys o ganlyniad i hil, statws mewnfudo, anabledd, rhywioldeb a/neu anfantais luosog.

## 6.4

**Mae'r sefydliad yn ymgymryd ag eiriolaeth unigol a sefydliadol i wella ymtatebion asiantaethau eraill i oroeswyr a'u plant.**

**Canllawiau:** Mae'r sefydliad yn gweithio i gynyddu dealltwriaeth asiantaethau eraill o anghenion goroeswyr ac ymateb iddynt. Mae gwaith eiriolaeth yn herio mythau ynghylch trais ar sail rhywedd, polisïau ac arferion gwael, anniogel a gwahaniaethol, ymddygiad gormesol ac achosion o ragfarn anymwybodol.

## 6.5

**Mae'r sefydliad yn gweithio gyda darparwyr gwasanaethau trais yn erbyn menywod a merched arbenigol eraill ac yn sefydlu partneriaethau â nhw i ddarparu llais ar y cyd gan y sector menywod wrth ddiffinio nodau strategol, er mwyn diogelu a gwella darpariaeth bwrpasol ac abenigedd unigryw. Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i gydweithio â gwasanaethau arbenigol, yn hytrach na chystadlu â nhw.**

**Canllawiau:** Mae'r sefydliad yn cyfrannu'n weithredol i rwydweithiau VAWDASV lleol a phartneriaethau gyda darparwyr ymroddedig arbenigol eraill, ac yn cymryd rhan ynddynt, er mwyn bod yn eiriol ar y cyd dros oroeswyr, diogelu a gwella darpariaeth bwrpasol a darpariaeth ategol i gomisiynwyr. Mae sefydliadau wedi ymrwymo i bartneriaethau teg a chyfartal gyda sefydliadau 'gan ac ar gyfer' pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

# SAFON 7:
# Llywodraethu ac atebolrwydd

Mae'r sefydliad yn dangos arweinyddiaeth gan fenywod ac mae'n atebol i ddefnyddwyr gwasanaethau a chymunedau.

## 7.1

**Mae'r sefydliad yn dangos egwyddorion arweinyddiaeth ffeministaidd. Pan fo busnes craidd y gwasanaeth neu'r sefydliad ym ymwneud â chefnogi menywod a phlant, mae'r sefydliad yn dangos ymrwymiad i roi menywod wrth ei galon ac i gael ei arwain ganddynt, ac mae'n cydnabod pwysigrwydd cael ei arwain 'gan ac ar gyfer menywod'.**

**Canllawiau:** Bydd sefydliadau'n arfer yr ymrwymiad hwn drwy ddangos bod cadeirydd a/neu is-gadeirydd y bwrdd, mwyafrif yr ymddiriedolwyr a'r prif weithredwr yn fenywod. Bydd polisi a gweithdrefnau'n gwarantu y bydd y swyddi hyn yn cael eu dal gan fenywod. Pan fo'r gwasanaeth arbenigol yn rhan o sefydliad mwy, caiff y gwasanaeth ei oruchwylio gan fwrdd ar wahân a/neu mae menywod yn ganolog i dîm rheoli'r gwasanaeth ac mae wedi'i arwain ganddynt. Lle bo'r sefydliad neu'r gwasanaeth yn un arbenigol 'gan ac ar gyfer' menywod Du, Asiaidd a Lleiafriofedd Ethnig, dylai'r menywod y mae cyfeiriad atynt uchod fod yn fenywod Du, Asiadd a Lleifarifoedd Ethnig. Dylai fynegi ymrwymiad i gael ei arwain gan fenywod ar draws y sefydliad gan gynnwys o fewn ei weithagrwch cyhoeddusrwydd a hyrwyddo. Pan fo'r sefydliad yn cefnogi dioddefwyr cam-drin gwrywaidd a/neu'n darparu gwasanaethau i gyflawnwyr, dylai hyn gael ei adlewyrchu yn nogfennau llywodraethu'r sefydliad.

## 7.2

**Caiff y gwasanaeth ei reoli'n dda gyda chylch gwaith clir a threfniadau llywodraethu cadarn. Mae cynlluniau busnes yn seiliedig ar anghenion ac yn cael eu monitro a'u hadolygu.**

**Canllawiau:** Dylai'r sefydliad gael strwythur llywodraethu clir a chadarn yn ei le gyda rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd wedi'u nodi'n glir ar gyfer pob rhan o'r sefydliad. Rhaid i gynlluniau busnes ar gyfer darparu gwasanaethau ystyried asesiadau anghenion cymunedol ac adlewyrchu cylch gwaith y sefydliad. Rhaid adolygu'r cynlluniau yn erbyn angen a chanlyniad, ac adborth gan randdeiliaid a phartneriaid.

**7.3 Mae'r sefydliad yn hyrwyddo dealltwriaeth o gam-drin domestig ar sail rhywedd fel achos a chanlyniad anghydraddoldeb menywod. Caiff hyn ei ategu gan werthoedd ac egwyddorion ffeministaidd a'i ddangos yn ei holl ddeunydd cyhoeddusrwydd a hyrwyddo.**

**Canllawiau:** Rhaid cydnabod trais yn erbyn menywod a merched, neu gam-drin domestig fel math o drais ar sail rhywedd, a'i fynegi ar ei wefan ac mewn deunydd hyrwyddo fel prif bwrpas y sefydliad. Rhaid i hyn gynnwys ac ategu gwerthoedd ffeministaidd yn ei holl waith a chael ei gydnabod a'i ddeall gan bawb sy'n gysylltiedig ag ef, gan gynnwys y bwrdd, y prif swyddog gweithredol, yr uwch-dîm rheoli, y staff a'r gwirfoddolwyr.

**7.4 Mae'r sefydliad yn gynaliadwy yn ariannol ac yn cael ei reoli'n dda. Mae wedi ymrwymo i godi arian o ystod amrywiol o ffynynonellau ac mae'n rheoli arian yn gyfan gwbl er budd defnyddwyr gwasanaethau. and manages funds wholly for the benefit of service users.**

**Canllawiau:** Dylai fod gan y sefydliad system reolaeth ariannol gadarn. Dylai strategaeth codi arian fod yn ei lle gyda chyfranogiad y bwrdd i gynydduamrywiaeth y ffrydiau ariannu. Dylai'r gwaith o godi arian fod yn unol â nodau'r sefydliad a chanolbwyntio ar brosiectau sydd o fudd i oroeswyr VAWDASV gan gynnwys plant. Dylai cronfeydd cyfyngedig ac anghyfyngedig ymrwymo i ddarparu a gwella gwasanaethau. Dylai gweithgraeddau gefnogi cynaliadwyedd y sefydliad, nid gor-ymestyn na thyfu'r gwasanaeth yn rhy gyflym.

**7.5 Caiff dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ei fabwysiadu o ran darparu gwasanaethau ac mae'r sefydliad yn cyfrannu at gasglu tystiolaeth a data lleol a chenedlaethol ar VAWDASV.**

**Canllawiau:** Rhaid i'r sefydliad gael dulliau cofnodi, monitro a chasglu data effeithiol sy'n dangos canlyniadau gwaith gyda defnyddwyr gwasanaeth. Dylid defnyddio canlyniadau i lywio'r gwaith o gynllunio a dylunio gwasanaethau. Rhaid i'r sefydliad ymateb i alwadau cenedlaethol am ddata a thystiolaeth ddienw

**7.6** **Mae ymddiriedolwyr yn deall dynameg trais yn erbyn menywod a merched ac egwyddorion ymarfer gwrth-ormesol, yng nghyd-destun gormes croestoriadol.**

**Canllawiau:** Mae'r sefydliad yn darparu hyfforddiant i bob ymddiriedolwr ar ddeall VAWDASV, arweinyddiaeth ffeministaidd, rôl gwasanaethau arbenigol, diogelu, ymarfer gwrth-ormesol gan gynnwys ymarfer gwrth-hiliol a'u dyletswyddau i hyrwyddo cydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Caiff hyn ei ategu gan ddealltwrieth groestoriadol o ormes a'i adlewyrchu o fewn recriwtio a dethol ymddiriedolwyr ac o fewn polisïau llywodraethu.

**7.7** **Mae gan staff a gwirfoddolwyr hyfforddiant arbenigol i weithio gyda goroeswyr VAWDASV. Mae staff wedi'u hyfforddi yn unol â Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol perthnasol Llywodraeth Cymru a lefelau Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor.**

**Canllawiau:** Rhaid i sefydliadau roi hyfforddiant cychwynnol i'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n cynnwys deall dynameg rhywedd VAWDASV, ymwybyddiaeth o'r gwahanol fathau o drais yn erbyn menywod, rôl gwasanaethau arbenigol, ymarfer ffeministaidd, ymarfer gwrth-ormesol gan gynnwys ymarfer gwrth-hiliol, cydraddoldeb ac amrywiaeth, hawliau cyfreithiol a lles. Mae staff wedi'u hyfforddi i lefelau priodol Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru a'r Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor. Caiff sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd staff eu cynnal a'u gwella'n rheolaidd.

## 7.8 Mae mesurau yn eu lle i sicrhau arferion gweithio diogel ac i ddiogelu dioglewch corfforol a lles meddyliol staff a gwirfoddolwyr.

**Canllawiau:** Rhaid i'r sefydliad sicrhau y caiff yr holl wirfoddolwyr, gweithwyr sesiynol a staff eu cefnogii wneud eu gwaith yn ddiogel ac yn effeithiol, tra hefyd yn sicrhau y caiff eu dyletswydd gofal o ran lles staff ei chyflawni. Dylid gwneud hyn drwy ddarparu a gweithredu rhaglenni cynefino, prawf a goruchwylio, wedi'u cynnal gan oruchwylwyr mewn ffordd sy'n gweithio i ddeall anghenion staff, yn darparu amgylchedd cefnogol, ac yn cyflwyno ac yn galluogi'r defnydd o ymarfer myfyriol. Mae systemau ac adolygiadau rheoli achosion yn eu lle, yn ogystal â goruchwyliaeth glinigol a datblygiad proffesiynol parhaus. Bydd hyn yn ategu'r ddarpariaeth gynhwysfawr o bolisïau staff sy'n seiliedig ar werthoedd ffeministaidd gan sicrhau gwell hawliau mamolaeth, gwyliau blynyddol, oriau gwaith a pholisïau absenoldeb sy'n ystyriol o deuluoedd. Mae gan bob aelod o staff gontractau a disgrifiadau swydd. Caiff staff yr un cyflog am waith cyfatebol ac mae graddfeydd cyflog yn briodol i rolau, hynny yw i'r cyflog byw o leiaf.

## 7.9 Mae defnyddwyr gwasanaethau yn rhan o'r gwaith o gynllunio a gwerthuso gwasanaethau ac mae mecanwaith i'r bwrdd ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau cyfredol i lywio'r broses o wneud penderfyniadau.

**Canllawiau:** Mae'r sefydliad yn gosod defnyddwyr wrth wraidd ei wasanaethau, gan sicrhau y caiff, lleisiau goroeswyr eu clywed yn ei holl waith. Mae cynnwys ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau yn gynhwysol ac wedi'u ffurfioli, caiff ymgynghoriadau rheolaidd eu cynnal ac mae proses ffurfiol yn ei lle i aelodau'r bwrdd a defnyddwyr gwasanaethau gyfarfod yn rheolaidd.

## 7.10 Caiff cyfleoedd eu darparu i staff gyfarfod ag ymddiriedolwyr a chael eu cynrychioli yn holl waith y sefydliad er mwyn llywio penderfyniadau'r bwrdd.

**Canllawiau:** Mae'r sefydliad yn darparu mecanweithiau i staff gael eu cynrychioli'n rheolaidd yn ei holl strwythurau a'i weithdrefnau. Caiff lleisiau staff eu cynrychioli a'u clywed o fewn ei fwrdd a'i uwch-dimau rheoli i lywio ei benderfyniadau.

7.11

**Mae gan y sefydliad brosesau cwynion hygyrch ac mae'n hysbysu'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau, staff a gwirfoddolwyr am y prosesau hyn.**

**Canllawiau**: Mae gan y sefydliad weithdrefn gwyno gadarn yn ei lle ar gyfer defnyddwyr gwasnaethau a rhanddeiliaid allanol yn ogystal â gweithdrefnau cwyno i staff a gwirfoddolwyr, gan gynnwys polisïau chwythu'r chwiban, gwrth-hiliaeth a gwrth-fwlio. Gwnaed ymdrech i ymgorffori polisïau drwy'r sefydliad yn ei gyfanrwydd, er mwyn sicrhau bod prosesau yn hygyrch ac yn hawdd eu defnyddio a'u dilyn.

Cymorth i Ferched Cymru
Tŷ Pendragon, Caxton Place,
Pentwyn, Caerdydd, CF23 8XE

02920 541 551
membership@welshwomensaid.org.uk

www.welshwomensaid.org.uk


Dilynwch ni:
@welshwomensaid


Mae Cymorth i Ferched Cymru yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhif 1140962 a yn gwmni cyfyngedig trwy warant sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr, rhif 07483469.



Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**


**Cymorth i Ferched Cymru**
**Welsh Women's Aid**
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First